# Adroddiad Blynyddol 2013–14

**Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Gorffennaf 2014

## Y Bwrdd Taliadau

**Sandy Blair CBE (Cadeirydd)**
**Mary Carter**
**Stuart Castledine**
**Yr Athro Monojit Chatterji**

**Y Gwir Anrhydeddus George Reid (Cadeirydd) hyd at fis Medi 2013**

Mae bywgraffiadau aelodau'r Bwrdd wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Carys Eyton Evans**, Clerc (hyd at fis Medi 2013)
**Gareth Price**, Clerc (o fis Medi 2013)
**Al Davies**, Dirprwy Glerc (o fis Medi 2012 hyd at fis Medi 2013)
**Dan Collier,** Dirprwy Glerc (o fis Medi 2013)
**Lisa Hatcher**, Cymorth Tîm (hyd at fis Medi 2013)

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliadcymru.org
Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8566
Ffacs: 029 2089 8117
E-bost: **Taliadau@cymru.gov.uk**

# Cynnwys


Y Bwrdd Taliadau ... 1

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd ... 1

**Cyflwyniad ... 5**

**1. Y Bwrdd Taliadau ... 8**

Sefydlu a Phenodi ... 8

Swyddogaethau ac Amcanion ... 8

Gofynion statudol ... 9

Egwyddorion ... 9

Methodoleg ... 10

Ymgynghori a Chasglu Tystiolaeth ... 10

**2. Ein gwaith yn 2013-14 ... 11**

Adolygu ein Penderfyniadau ... 11

Cyflogau Aelodau'r Cynulliad ar gyfer 2015-16, blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad 11

Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2014-15 ... 12

Lwfans Costau Swyddfa ... 13

Gwariant ar lety preswyl ... 13

Ystyried taliadau eithriadol ... 14

Cymorth i Aelodau'r Cynulliad sydd â chyfrifoldebau gofal ... 14

Grant Ymaddasu ... 15

Y Gronfa Polisi ac Ymchwil ... 16

Grwpiau trawsbleidiol ... 17

Pensiynau Aelodau'r Cynulliad ... 18

**3. Rhaglen waith 2014-15 ... 20**

**Cylch gwaith ac aelodau'r Bwrdd Taliadau ... 21**

**Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ... 24**

# Cyflwyniad

Syr George Reid oedd Cadeirydd y Bwrdd Taliadau ers ei sefydlu yn 2010. Yn anffodus, bu'n rhaid iddo ymddiswyddo fel Cadeirydd ac aelod o'r Bwrdd ym mis Medi 2013 oherwydd ei iechyd. Mae gan Syr George nifer o gryfderau: mae ganddo gyfoeth o brofiad o gyflawni swyddi ar y lefel uchaf mewn bywyd cyhoeddus, craffter gwleidyddol, a gwir ddyhead i weld y Cynulliad Cenedlaethol yn datblygu'n senedd genedlaethol gref. Mae'r rhai ohonom a weithiodd ochr yn ochr gydag ef yn gwybod hefyd am ei allu arbennig fel cadeirydd, ei ddoethineb, ei hiwmor, ei egni dygn a'i garedigrwydd. Mawr yw dyled ei gydweithwyr ar y Bwrdd, y Cynulliad a Chymru gyfan i Syr George am ei gyfraniad. A minnau'n olynydd iddo fel Cadeirydd, rwy'n ymwybodol iawn o'r bwlch y mae'n ei adael. Wrth inni barhau i chwilio am aelod yn ei le, mae'r Bwrdd yn benderfynol o barhau i arfer yr un egwyddorion, a pharhau i seilio ein gwaith ar dystiolaeth, yn y modd y gwnaeth Syr George o'r dechrau.

Nod y Bwrdd Taliadau erioed fu sicrhau bod strwythur ar waith ar gyfer cyflogau, pensiynau a lwfansau – a hynny flwyddyn cyn dechrau'r Pumed Cynulliad – a bod y strwythur hwnnw'n un teg a chlir, sy'n sicrhau gwerth am arian ac sy'n addas i'r diben. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y gwaith a wnaed gennym yn 2013-14, ac rwy'n falch o ddweud ein bod yn dal ar y trywydd iawn i gyflawni'r nod hwnnw.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Bwrdd yn ffurfiol chwe gwaith. Rhwng y cyfarfodydd, bu'r aelodau'n trafod dros y ffôn a thrwy e-bost ac maent wedi cyflawni amrywiaeth o waith ymchwil yn eu meysydd proffesiynol unigol eu hunain. Fel Cadeirydd, rwyf wedi trafod yn rheolaidd â'r Llywydd ac arweinwyr y pleidiau ac rwyf wedi cyfarfod ag Aelodau Cynulliad a'u staff yn aml.

Mae'r Cynulliad wedi esblygu'n sylweddol ers ei sefydlu. Corff corfforaethol ydoedd i ddechrau, â phwerau cyfyngedig, ond mae bellach yn gorff seneddol annibynnol sy'n llunio deddfwriaeth sylfaenol bwysig. Bydd Bil Cymru, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn rhoi pwerau ariannol arwyddocaol newydd i'r Cynulliad, ac mae argymhellion Comisiwn Silk yn awgrymu y bydd cymhwysedd deddfwriaethol y sefydliad yn datblygu ymhellach. Mae hyn oll yn ychwanegu pwysau a chyfrifoldebau sylweddol at waith deddfwrfa sydd â dim ond 60 o Aelodau.

Yn y cyd-destun hwnnw, ein gwaith ni yw sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael eu talu'n addas, a bod digon o adnoddau ariannol ar gael iddynt i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau.  Ar ran trethdalwyr, rhaid inni hefyd sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Gobeithio y bydd y camau a gymerom dros y flwyddyn ddiwethaf yn dangos inni fodloni'r holl ofynion hynny. Mae pobl Cymru yn haeddu llywodraeth dda, ond er mwyn sicrhau hynny, mae'n rhaid i'r Cynulliad allu craffu ar y llywodraeth a'i herio'n gadarn, ac mae'n rhaid sicrhau bod y Cynulliad yn cynrychioli'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Rydym yn bwriadu chwarae ein rhan er mwyn sicrhau hynny.



**Sandy Blair CBE DL, Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**
**Gorffennaf 2014**

# 1. Y Bwrdd Taliadau

*Mae'r bennod hon yn sôn am swyddogaethau, cylch gwaith a dulliau gweithredu'r Bwrdd.*

## Sefydlu a Phenodi

1. Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (y Mesur), a dderbyniodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

2. Cafodd y Bwrdd ei benodi gan weithdrefn penodiadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod yr haf yn 2010. Mae bywgraffiadau pob un o aelodau'r Bwrdd wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Mae aelodau'r Bwrdd Taliadau wedi'u penodi am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni chaniateir iddynt gael eu penodi am fwy na dau dymor.

3. Cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad y penodiadau yn ffurfiol ar 21 Medi 2010, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Hydref 2010.

4. Yn dilyn ymddiswyddiad Syr George Reid ym mis Medi 2013, etholwyd Sandy Blair yn Gadeirydd gan y Bwrdd o dan Adran 1 o'r Mesur, gydag effaith o 1 Hydref 2013. Cymeradwywyd y penderfyniad hwn yn ffurfiol gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2013.

## Swyddogaethau ac Amcanion

5. Ein swyddogaethau, fel y'u nodir yn Adran 3 o'r Mesur, yw penderfynu ar lefel o gyflogau a system o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad sy'n eu galluogi i gyflawni eu swyddi.

6. Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid inni eu cyflawni wrth wneud Penderfyniad, sef:

- darparu lefel o dâl i Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;
- darparu adnoddau i Aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau; a

– sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

## Gofynion statudol

7. Wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae Adran 3 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol inni adolygu'r ffordd y gweithredir ein penderfyniadau a'u heffeithiolrwydd yn barhaus, gan ystyried yn benodol y profiad yr ydym yn ei feithrin wrth roi ein Penderfyniadau ar waith, unrhyw newidiadau i swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni.

8. Er ein bod yn annibynnol ar y Cynulliad, ac nad ydym yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad na Chomisiwn y Cynulliad, mae Adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol inni, wrth arfer ein swyddogaethau, ymgynghori â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt. Mae hynny'n cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, yr undebau llafur perthnasol ac unrhyw un arall sy'n briodol yn ein barn ni.

9. Mae Adran 2 o'r Mesur yn caniatáu inni gyfarfod yn breifat os bydd hynny'n briodol yn ein barn ni, ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol inni ymddwyn mewn modd tryloyw a chyhoeddi ar wefan y Cynulliad y cyfryw wybodaeth a fydd yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gweithgareddau. At hynny, mae Adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol inni osod adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad ar ein gweithgareddau, gan gynnwys ein defnydd o adnoddau, yn ystod pob blwyddyn ariannol.

## Egwyddorion

10. Mae cyfres o egwyddorion clir wedi bod yn sylfaen i'n gwaith hyd yma:

- dylai cymorth ariannol a thaliadau i Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith yr Aelodau;
- mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- mae'n rhaid i'r system o gymorth ariannol a ddarperir i Aelodau'r Cynulliad fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

## Methodoleg

11. Mae'r hyn a nodir yn ein Penderfyniadau yn deillio o adolygiad tryloyw a chyfranogol o'r system o gymorth ariannol a thaliadau, ac mae'n seiliedig ar y dystiolaeth a gesglir gennym gan yr Aelodau, eu staff, ac unigolion, sefydliadau a ffynonellau perthnasol eraill. Mae'r dystiolaeth a gafwyd gennym wedi ein galluogi i gael syniad clir o ddibenion strategol y Cynulliad a'r ffordd y mae'r Aelodau yn cyflawni'r dibenion hynny. Rydym wedi rhoi system daliadau ar waith sy'n targedu adnoddau er mwyn cefnogi'r dibenion hyn a phob agwedd ar rôl Aelodau'r Cynulliad. Yn unol â'n cylch gwaith, rydym yn ymateb i adborth fel y bo angen, drwy ystyried gwelliannau i'n Penderfyniad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben.

12. Yn unol ag Adran 9 o'r Mesur, rydym wedi cael cymorth clercio a gwaith ymchwil, cyngor cyfreithiol a mathau eraill o gyngor, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Cynulliad. Darperir y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, ac nid yw felly'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol i'r Bwrdd Taliadau.

## Ymgynghori a Chasglu Tystiolaeth

13. Ym mhob rhan o'n gwaith, ac yn unol ag Adran 2 o'r Mesur, rydym wedi cynnal ymgynghoriad ag amrywiaeth o randdeiliaid. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r rhai a roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth i gefnogi ein gwaith ers i'r Bwrdd gael ei sefydlu.

14. Mae cael adborth gan yr Aelodau pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau'n rheolaidd wedi ein galluogi i werthuso pa mor effeithiol yw'r systemau sydd ar waith gennym. Byddwn yn parhau i ddilyn y dull gweithredu cyfranogol hwn er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau'n parhau'n addas i'r diben.

# 2. Ein gwaith yn 2013-14

*Mae'r bennod hon yn ystyried y newidiadau a wnaed gennym i'r Penderfyniad yn ystod y flwyddyn yn dilyn adborth a thystiolaeth gan yr Aelodau. Mae hefyd yn amlinellu'r meysydd allweddol a ystyriwyd gennym ond nad ydynt wedi arwain at newidiadau i'r Penderfyniad yn 2013-14.*

## Adolygu ein Penderfyniadau

15. Mae'n rhaid inni barhau i adolygu ein Penderfyniad i sicrhau ei fod yn parhau i roi'r adnoddau sydd eu hangen ar Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau. Er mwyn gwneud hynny, rydym yn gwahodd yr Aelodau i roi adborth a thystiolaeth, sy'n ein galluogi i asesu effeithiolrwydd ein penderfyniadau a nodi unrhyw feysydd i'w hailystyried.

16. Rydym wedi adolygu ein penderfyniadau mewn sawl maes, a rhestrir y rhain isod. Lle y bo angen, rydym wedi diwygio ein Penderfyniad. Oni nodir fel arall, bydd y newidiadau a gyflwynir yn dod i rym ym mlwyddyn ariannol 2014-15.

## Cyflogau Aelodau'r Cynulliad ar gyfer 2015-16, blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad

17. Yn 2011, ar ddechrau'r hyn a oedd ar y pryd yn Gynulliad pedair blynedd, penderfynodd y Bwrdd rewi cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad ar lefel 2010-11 tan ddiwedd 2014-15. Ers hynny, mae deddfwriaeth wedi dod i rym sy'n golygu na chynhelir etholiad nesaf y Cynulliad tan fis Mai 2016. Felly, mae angen i'r Bwrdd benderfynu lefel y cyflog sylfaenol ar gyfer blwyddyn olaf y Cynulliad hwn yn 2015-16. Yn ein barn ni, roedd yn ddoeth gwneud y penderfyniad hwnnw cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau eglurder i'r Aelodau a'r cyhoedd.

18. Pe baem yn gwybod ar y pryd y byddai'r Cynulliad yn bodoli am flwyddyn arall cyn ei ddiddymu, nid oes unrhyw reswm i feddwl y byddem wedi gwneud unrhyw beth ond rhewi'r cyflog sylfaenol am bum mlynedd, yn hytrach na phedair. O ystyried hyn a'r pwysau parhaus ar wariant cyhoeddus, lefelau enillion ledled Cymru a phatrwm setliadau cyflog yn y sector cyhoeddus, roedd dadl gref dros barhau i rewi cyflogau, yn ein barn ni. Ar yr un pryd, roeddem yn cydnabod, erbyn diwedd 2014-15, y byddai

cyflogau'r Aelodau wedi'u rhewi ers 2010-11. Mae hynny'n ostyngiad sylweddol mewn termau real. Roeddem yn cydnabod hefyd fod y cyfyngiadau ar gyflogau cyhoeddus wedi dechrau llacio rhywfaint.

19. Yn ein barn ni, felly, byddai cynnydd bach yn y cyflog sylfaenol ar gyfer blwyddyn olaf y Cynulliad yn briodol. Roeddem yn glir mai nod y penderfyniad hwn oedd sicrhau cyflog teg am un flwyddyn yn unig. Byddwn yn cynnal ymarfer manwl i edrych ar gyflogau Aelodau ar gyfer y Pumed Cynulliad.

### Penderfyniad

20. Bydd cyflog sylfaenol yw Aelodau yn 2015-16 yn cynyddu 1%, o £53,852 i £54,390.

21. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, bydd cynnydd o £32,280 o ran costau cyflogau sylfaenol yn 2015-16.

## Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2014-15

22. Yn 2013, cynhaliwyd adolygiad helaeth o gyflogau a threfniadau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, a nodir yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr[1]. Ar ôl ymgynghori ag Aelodau a'u staff, gwnaethom gytuno i gynyddu pob pwynt cyflog ar fandiau cyflog staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 1% o 2014-15. Gwnaethom hefyd ymrwymo i ystyried yn y dyfodol y ddarpariaeth o ran budd-dal marwolaeth yn y swydd i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, taliadau dileu swydd a pharhad gwasanaeth, hawliadau gwyliau a chyfraniadau pensiwn.

### Penderfyniad

23. Bydd cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn cynyddu 1% yn 2014-15. Dangosir y graddfeydd cyflog isod. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15 bydd pob Aelod yn cael uchafswm lwfans staffio o £90,789 er mwyn cyflogi staff ar y graddfeydd hyn.

24. Y cynnydd mwyaf o ran costau cyflogau a allai ddigwydd o ganlyniad i'r penderfyniad hwn fyddai £62,695, ond mae'r gwariant gwirioneddol yn debygol o fod llawer yn llai na hyn.

[1] Adolygiad o drefniadau staffio Aelodau'r Cynulliad a chyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad: Rhagfyr 2013

25. figur 1: Graddfeydd cyflog staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2014-2015

| | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pennaeth Staff | £34,117 | £35,865 | £37,704 | £39,637 | £41,673 |
| Cymorth Grŵp Ychwanegol | £31,016 | £32,606 | £34,276 | £36,033 | £37,885 |
| Band 1 | £23,049 | £25,115 | £27,373 | £29,837 | £32,532 |
| Band 2 | £19,684 | £21,652 | £23,823 | £26,214 | £28,856 |
| Band 3 | £17,824 | £19,205 | £20,693 | £22,301 | £24,037 |

26. Rhoddir ystyriaeth i gyflogau staff cymorth ar gyfer 2015-16 ar ddechrau 2015.

## Lwfans Costau Swyddfa

27. Caiff yr Aelodau hawlio lwfans costau swyddfa i ad-dalu unrhyw gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â rheoli swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr. Ym mis Mawrth, gwnaethom gytuno i gynyddu'r lwfans yn unol â'r cynnydd a ragwelwyd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2014. Yn sgil hynny, cynyddodd y lwfans i £17,014.

### Penderfyniad

28. Cynyddodd y lwfans costau swyddfa ar gyfer 2014-15 o £16,697 i £17,014 yn unol â'r cynnydd a ragwelwyd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan y Swyddfa â Chyfrifoldebau dros y Gyllideb yn 2014, sef 1.9%, fel y nodwyd yng Nghyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer 2014-15.

29. Y gost fwyaf bosibl o ganlyniad i'r penderfyniad hwn yw £19,000.

## Gwariant ar lety preswyl

30. Mae ein penderfyniad yn darparu ar gyfer taliadau i ad-dalu Aelodau sy'n cynrychioli'r etholaethau a'r rhanbarthau sydd bellaf o Gaerdydd am y gost o aros dros nos yng Nghaerdydd yn rhinwedd eu swydd fel Aelod. Ers 2011, mae 25 o Aelodau wedi bod yn gymwys i gael y taliadau hyn.

31. Cafodd y Bwrdd adborth gan Aelodau bod y cynnydd yn y farchnad eiddo ar rent llawer yn fwy na'r addasiadau a waned i'r lwfans. O ganlyniad, gwnaethom ddadansoddi taliadau'r Aelodau a chyfradd y farchnad ar gyfer llety o fewn pellter rhesymol i'r Senedd. Ym mis Mawrth, gwnaethom gytuno i gynyddu uchafswm yr ad-daliad mewn perthynas â llety preswyl i Aelodau sydd â'u prif gartref o fewn yr ardal allanol.

### Penderfyniad

32. Cynyddwyd uchafswm yr ad-daliad mewn perthynas â llety preswyl i Aelodau sydd â'u prif gartref o fewn yr ardal allanol o £8,400 y flwyddyn i £8,820 y flwyddyn (sef £700 y mis i £735 y mis) ar gyfer 2014-15.

33. Y gost fwyaf bosibl o ganlyniad i'r penderfyniad hwn yw £10,500.

## Ystyried taliadau eithriadol

34. Mae'r Bwrdd yn cydnabod efallai y bydd amgylchiadau eithriadol personol yn effeithio ar Aelodau unigol o bryd i'w gilydd, sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y rhain yn aml yn gyfrinachol eu natur, a gallant godi ar fyr rybudd. Mae dyletswydd ar y Bwrdd i gefnogi Aelodau ym mhob agwedd ar eu rôl ac, ym marn y Bwrdd, os caiff wybod am amgylchiadau o'r fath, dylai wneud penderfyniad a oes achos o blaid darparu cymorth ariannol eithriadol. Yn amlwg, mae angen ymdrin â cheisiadau o'r fath mewn ffordd sensitif, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer adrodd ar drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd.

### Penderfyniad

35. Ym mis Tachwedd 2013, diwygiwyd y Penderfyniad i'w gwneud yn gliriach pa gamau y mae'n rhaid i Aelod eu dilyn os yw'n cyflwyno cais o'r fath a'r broses y byddwn yn ei dilyn wrth asesu a ddylid darparu rhagor o gymorth. Yn ystod y flwyddyn, cawsom un cais o dan y weithdrefn newydd. Yn yr achos hwnnw, nid oeddem wedi ein hargyhoeddi o'r angen am gymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a oedd eisoes ar gael.

## Cymorth i Aelodau'r Cynulliad sydd â chyfrifoldebau gofal

36. Ar sawl achlysur, rydym wedi ystyried cyflwyno lwfans i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal. Yn dilyn ein hymgynghoriad diweddaraf ag Aelodau, penderfynom beidio â chyflwyno unrhyw ddarpariaeth ychwanegol y tro hwn. Byddwn yn ystyried y mater eto cyn gwneud trefniadau terfynol ar gyfer y Pumed Cynulliad.

37. Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Bwrdd i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'i Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn yr arfer gorau yn y maes. Er mwyn gwneud hynny, rydym yn cael cymorth gan dîm cydraddoldeb Comisiwn y Cynulliad a chymorth arbenigol gan *Diverse Cymru*.

## Grant Ymaddasu

38. Mae gan yr holl Aelodau hawl i gael grant ymaddasu os byddant yn sefyll mewn etholiad ac yn cael eu trechu. Mae'r taliad hwn yn debyg i daliad diswyddo.

39. Yn achos yr Aelodau a etholwyd am y tro cyntaf yn 2011, caiff y grant ei gyfrifo ar sail un mis o gyflog ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth a gwblhawyd, hyd at uchafswm o chwe mis o gyflog.

40. Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau pontio ar gyfer Aelodau a etholwyd cyn 2011 yn golygu os na fyddant yn ymgeisio eto mewn etholiad yn 2016, byddant yn gymwys i gael grant ymaddasu. Nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw Aelodau a etholwyd am y tro cyntaf yn 2011 neu ers hynny.

41. Cyfrifir maint y grant i Aelodau a etholwyd cyn 2011 yn ôl fformiwla sy'n seiliedig ar oedran yr Aelod a pha mor hir y bu'n gwasanaethu. Bydd maint y taliadau ar gyfer yr Aelodau hyn yn amrywio o rhwng 50% a 100% o'u cyflog blynyddol, yn dibynnu ar sut y defnyddir y fformiwla.

42. Ymgynghorodd y Bwrdd â'r Aelodau ar gynnig i ddileu hawl yr Aelodau a etholwyd cyn 2011 i gael y grant ymaddasu os nad oeddent yn bwriadu ymgeisio mewn etholiad eto. Gwnaethom gynnig y dylai'r trefniadau pontio cyfredol ddod i ben ar ddiwedd y Cynulliad hwn, er mwyn trin yr holl Aelodau'n gyfartal. Byddai hyn yn golygu mai 2016 fyddai'r etholiad olaf lle byddai Aelod Cynulliad a etholwyd cyn 2011 yn cael grant ymaddasu pe bai'n dewis peidio ag ymgeisio mewn etholiad.

43. Roedd gan lawer o'r Aelodau bryderon am hyn, gan ddadlau ei fod yn effeithio'n annheg ar Aelodau sydd wedi penderfynu pryd i ymddeol ar sail y rheolau sydd ar waith ar hyn o bryd.

44. Ym marn y Bwrdd, ni ellir cyfiawnhau'r taliadau hyn yn yr hirdymor ac mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Ar ol ystyried y sylwadau a ddaeth i law, diwygiwyd ein cynnig gwreiddiol er mwyn dileu'r grant ymaddasu ar gyfer Aelodau a etholwyd cyn 2011 ar ddau gam.

### Penderfyniad

45. Bydd Aelodau a etholwyd cyn 2011 nad ydynt yn bwriadu ymgeisio yn etholiad 2016 yn cael grant ymaddasu yn unol â'r fformiwla, a nodir yn y Penderfyniad cyfredol, sy'n gymwys i'r Aelodau hynny. Bydd Aelodau a etholwyd cyn 2011 nad ydynt yn bwriadu ymgeisio yn etholiad 2021 yn cael grant ymaddasu ar 50% o'r lefel a gyfrifir drwy gyfeirio at y fformiwla a nodir yn y Penderfyniad cyfredol. Ni fydd y grant ymaddasu yn daladwy i unrhyw Aelod sy'n bwriadu ymgeisio mewn unrhyw etholiad ar ôl hynny.

46. Maes o law, bydd hyn yn arbed costau i'r pwrs cyhoeddus, ond nid oes modd rhagweld union faint yr arbediad hwnnw.

## Y Gronfa Polisi ac Ymchwil

47. Un o benderfyniadau cynnar y Bwrdd oedd rhoi Cronfa Polisi ac Ymchwil ar waith. Gall yr Aelodau hawlio hyd at £2,000 er mwyn comisiynu darnau unigol o waith ymchwil o ffynhonellau allanol. Rydym yn falch iawn o fod wedi cael adborth cadarnhaol gan yr Aelodau sydd wedi manteisio ar y gronfa. Byddwn yn parhau i fonitro'r defnydd o'r gronfa a byddwn yn ystyried opsiynau i'w gwella.

48. Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd naw o Aelodau y Gronfa Polisi ac Ymchwil i gyflawni gwaith yn y meysydd canlynol:

49. Ffigur 2: Gwybodaeth am brosiectau'r Gronfa Polisi ac Ymchwil 2013-14

| Aelod Cynulliad | Teitl |
|---|---|
| Elin Jones | Goblygiadau cyflwyno ardoll ar ddiodydd llawn siwgr |
| Eluned Parrott | Adroddiad ar Brentisiaethau mewn busnesau yng Nghymru |
| Jenny Rathbone | Cyfleoedd cyllido Ewropeaidd 2014-2020 |
| Joyce Watson | Gobaith yn wyneb cyni: menywod a gwaith yn Ystradgynlais a'r ardal |
| Julie Morgan | Hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol rhwng y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned sefydlog |
| Leanne Wood | Ymchwil i ynni yng Nghymru |
| Mick Antoniw | Dadansoddiad o'r cynlluniau i ad-drefnu iechyd yn ne Cymru |

| | |
|---|---|
| Peter Black | Diwygio llywodraeth leol yng Nghymru |
| Russell George | Adolygiad o breswylwyr a busnesau |

## Grwpiau trawsbleidiol

50. Ym mis Mehefin, cymeradwyodd y Cynulliad gyfres o argymhellion a wnaed mewn adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas â grwpiau trawsbleidiol. Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd ystyried canfyddiadau'r adroddiad.

51. Roedd y Bwrdd yn cytuno â safbwynt y Pwyllgor, yn ei hanfod, ar dalu lwfansau ar gyfer cymryd rhan mewn grwpiau trawsbleidiol a'r galw am fwy o eglurder ynghylch y mater.

52. Mae'n rhaid i'r system lwfansau a ddefnyddir alluogi'r Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau ym mhob rhan o'u gwaith. Yn yr un modd â'r holl adnoddau sydd ar gael i Aelodau drwy ein Penderfyniad, caiff lwfansau eu talu neu caiff hawliadau eu had-dalu ar gyfer treuliau angenrheidiol Aelodau mewn cysylltiad â chyflawni eu dyletswyddau.

53. Er nad yw grwpiau trawsbleidiol y Cynulliad yn cael eu hystyried yn rhan o fusnes ffurfiol, maent yn ddull o ymgysylltu â grwpiau â diddordeb o ystod o sectorau ac mae iddynt rôl werthfawr o ran codi ymwybyddiaeth ynghylch materion. Yn ein barn ni, gellir defnyddio lwfansau a delir o ganlyniad i'n Penderfyniad i hwyluso cymryd rhan yng ngweithgareddau grwpiau trawsbleidiol, er enghraifft, drwy hawlio costau llety neu gostau teithio i fynd i un o gyfarfodydd neu ddigwyddiadau grŵp trawsbleidiol.

54. Mae'n rhaid i'r Aelodau fod yn bersonol gyfrifol am yr holl wariant a ysgwyddir a rhaid iddynt arfer synnwyr cyffredin wrth asesu pa mor berthnasol yw unrhyw weithgaredd a gyflawnir i'w dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad. Mae ein Penderfyniad hefyd yn disgwyl i Aelodau ymrwymo i egwyddorion didwylledd a thryloywder. Caiff pob hawliad ei gyhoeddi ar y System Cyhoeddi Lwfansau, sy'n hysbysu'r cyhoedd ynghylch gwariant yr Aelodau.

## Pensiynau Aelodau'r Cynulliad

55. Mae ein gwaith ar bensiynau yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad.

56. Mae'r gwaith o lunio cynllun pensiwn yn gymhleth ac yn anodd. Dros bum mlynedd y Pedwerydd Cynulliad, bydd tua £6.9 miliwn yn cael ei dalu i'r cynllun pensiwn. O'r cyfraniadau hynny, daw tua £2.0 miliwn o gyfraniadau Aelodau a daw £4.9 miliwn o gyfraniadau'r Comisiwn. Mae'r rhain yn symiau mawr o arian ac rydym am sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r cynllun presennol a gynigir gennym yn taro cydbwysedd rhesymol rhwng y buddion a ddarperir i'r Aelodau a'r gost i drethdalwyr. Er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn drwyadl, yn gadarn ac yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gwnaethom geisio cyngor cyfreithiol ac actiwaraidd arbenigol.

57. Ym mis Tachwedd 2013, penodwyd Wragge & Co i roi cyngor cyfreithiol inni ar ein holl waith ym maes pensiynau ac i lunio rheolau'r cynllun ei hun. Penodwyd PriceWaterhouseCoopers (PwC) i roi cyngor ar yr opsiynau ar gyfer y cynllun newydd.

58. At hynny, rydym yn ddiolchgar i ymddiriedolwyr y cynllun presennol am gytuno y gallai'r Bwrdd gomisiynu Adran Actiwari’r Llywodraeth, sef actiwariaid y cynllun presennol, i gynllunio a phennu cost ein cynigion.

59. Cost y gwaith cyfreithiol ac actiwaraidd hwn yn 2013-14 oedd £63,522 (sef llai nag 1% o gyfanswm y cyfraniadau disgwyliedig i'r cynllun pensiwn yn ystod y Pedwerydd Cynulliad).

60. Yn ystod gweddill y flwyddyn y mae'r adroddiad hwn yn ei chwmpasu, buom yn gweithio gyda'n cynghorwyr i fireinio'r opsiynau a'r cynigion ar gyfer y cynllun newydd.

61. Ein nod wrth adolygu pensiynau'r Aelodau yw gwneud trefniadau at y dyfodol sy'n deg o ran cyfanswm y costau a rhannu risg, ac sy'n fforddiadwy i drethdalwyr ac i'r Aelodau. Mae'n rhaid i'r trefniadau ar gyfer yr Aelodau adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac sy'n effeithio ar bobl Cymru. Gydag amser, bydd y newidiadau yn arbed arian i drethdalwyr, gan sicrhau ar yr un pryd fod y rhai sy'n cael eu hethol i'r Cynulliad yn cael darpariaeth briodol ar gyfer eu hymddeoliad.

62. O ganlyniad i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a basiwyd gan y Cynulliad ym mis Chwefror 2013, mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (Deddf 2013), sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, yn gymwys i

gynllun Aelodau'r Cynulliad. Felly, rhaid inni ddilyn llawer o'r gofynion yn Neddf 2013 wrth gyflwyno unrhyw newidiadau.

63. Byddwn yn nodi manylion terfynol y cynllun pensiwn newydd erbyn y gwanwyn yn 2015. Yna bydd y cynllun ar waith i Aelodau'r Cynulliad ar ôl etholiad 2016. Yn y cyfamser, byddwn yn ymgynghori ag Aelodau a'r cyhoedd ar yr opsiynau a'r cynigion.

# 3. Rhaglen waith 2014-15

64. Cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2016, byddwn yn pennu'r pecyn taliadau cyflawn a'r system o gymorth ariannol sy'n briodol ar gyfer Aelodau'r Pumed Cynulliad.  Rydym wedi rhannu ein gwaith yn bedair rhan:

a. Taliadau i Aelodau – pensiynau

b. Taliadau i Aelodau – cyflogau: sylfaenol a deiliaid swyddi

c. Cymorth i Aelodau, gan gynnwys staffio

d. Lwfansau, gan gynnwys preswyl, swyddfa a theithio

65. Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2014, cytunodd y Bwrdd y dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r gwaith hwn. Comisiynwyd Diverse Cymru i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd yn un cadarn.

66. Ein nod yw gwneud gwaith ymchwil trwyadl, ymgynghori'n eang a chyhoeddi ein penderfyniadau ym mhob un o'r meysydd hyn erbyn mis Mai 2015. Yna bydd darpar ymgeiswyr mewn etholiadau, pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd yng Nghymru yn gwybod ymhell ymlaen llaw am y trefniadau ariannol a fydd ar waith i'r Aelodau a etholir yn 2016.

# Cylch gwaith ac aelodau'r Bwrdd Taliadau

Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Corff statudol annibynnol yw'r Bwrdd, sy'n gyfrifol am y canlynol:

– sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael lefel o dâl sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, ar sail ariannol, yn rhwystro pobl sydd â'r ymroddiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol yn Aelodau Cynulliad;

– sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad adnoddau digonol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau; a

– sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

Wrth gyflawni ei gylch gwaith, gofynnir i'r Bwrdd ymddwyn mewn ffordd agored a thryloyw ac ymgynghori â'r rhai y mae'r gwaith o arfer ei swyddogaethau yn debygol o effeithio arnynt, os bydd hynny'n briodol ym marn y Bwrdd.

Penodwyd y Bwrdd drwy broses recriwtio deg ag agored ac mae'n cynnwys Cadeirydd a phedwar Aelod Bwrdd fel arfer:



**Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid**
(Cadeirydd hyd at fis Medi 2013 pan roddodd y gorau i'r Bwrdd)

Gwleidydd, newyddiadurwr ac academydd o'r Alban. Cafodd ei urddo'n farchog yn 2012. Mae'n Gyfrin Gynghorwr, yn gyn-Aelod Seneddol, yn gyn-Aelod o Senedd yr Alban, ac yn gyn-Lywydd Senedd yr Alban a Chadeirydd ei Chorff Corfforaethol. Ef yw Arglwydd Raglaw Clackmannanshire. Bu'n gweithio am 15 mlynedd mewn rhyfeloedd a thrychinebau fel cyfarwyddwr y Groes Goch Ryngwladol / y Cilgant Coch. Yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd, roedd ei benodiadau'n cynnwys: Comisiynydd Etholiadol y DU ac Athro gwadd ym Mhrifysgol Glasgow a Phrifysgol Stirling. Arweiniodd adolygiadau strategol o lywodraethiant Cynulliad Gogledd Iwerddon ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban.



**Sandy Blair CBE**

(Cadeirydd ers mis Medi 2013)

Cyn-gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (ymddeolodd yn 2004). Roedd yn brif weithredwr awdurdod lleol am 16 mlynedd cyn cael ei benodi i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac ef oedd Llywydd Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE) rhwng 1999 a 2000. Mae wedi ymgymryd â nifer o benodiadau cyhoeddus ac wedi bod yn ymddiriedolwr ar sawl corff cyhoeddus, fel cyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Mynwy a rolau gyda'r Eglwys yng Nghymru. Mae wedi bod yn aelod o Bwyllgorau Taliadau UWIC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Fe'i penodwyd yn Gadeirydd Sefydliad Bevan ym mis Tachwedd 2013.



**Mary Carter**

Ymddeolodd o'i swydd fel Partner yn KPMG ym mis Medi 2008 ac mae'n aelod o Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog ar hyn o bryd, sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ynghylch cyflogau'r fyddin a lwfansau a thaliadau digolledu. Mae'n gyfreithwraig sydd wedi arbenigo am dros 20 mlynedd ar gynghori cwmnïau yn y DU a thu hwnt ynghylch cyflogau a chymhellion ariannol i gyfarwyddwyr / uwch-reolwyr a materion cysylltiedig o ran llywodraethu a threthi.



**Stuart Castledine**

Cyfrifydd siartredig sydd wedi cyflawni nifer o rolau ariannol a rheoli cyffredinol i Allied Dunbar, Chartered Trust, a Chymdeithas Adeiladu Bristol & West, cyn ei benodi'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol cyntaf Tesco. Yn ddiweddar, mae wedi ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan helpu i sefydlu mentrau a chynghreiriau ar y cyd yn ogystal â gweithio fel cyfarwyddwr i drawsnewid nifer o sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau ariannol. Roedd yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru hyd at fis Mawrth 2014.



**Yr Athro Monojit Chatterji**

Academydd â phrofiad ym maes polisi cyhoeddus, sydd wedi cyhoeddi gwaith ymchwil ar bynciau fel yr elfennau sy'n llywio cyflogau yn y sector cyhoeddus a rôl yr undebau llafur. Ar hyn o bryd, mae'n Athro Bonar mewn Economeg Gymhwysol ym Mhrifysgol Dundee ac yn Gydgymrawd a Chyfarwyddwr Astudiaethau Economeg yng Ngholeg Sidney Sussex, Caergrawnt. Ef yw Cadeirydd Cydgyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achosion Brys y DU (y corff negodi tâl). Fe'i penodwyd yn aelod lleyg o Bwyllgor Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar gyfer yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA) ym mis Ionawr 2013. Mae wedi bod yn aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ynghylch cyflogau, amodau, a threfniadau llywodraethu ar gyfer athrawon a phrifathrawon yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gyn-aelod o Grŵp Economegwyr, Swyddfa Economeg y Gweithlu, sy'n ystyried materion trawsbynciol o ran cyflogau yn y sector cyhoeddus.

# Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd

Mae'r tabl isod yn dangos y costau uniongyrchol a ysgwyddwyd gan y Bwrdd Taliadau yn 2013-14. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd pum cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd ac un cyfarfod anffurfiol. Aeth Aelodau'r Bwrdd i gyfarfodydd ychwanegol a thelegynadleddau gyda chynghorwyr allanol ynghylch pensiynau hefyd.

## Ffioedd Aelodau'r Bwrdd (cyn treth)

| | Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid (Cadeirydd) Hyd at fis Hydref 2013 | Sandy Blair (Hyd at Hydref 2013) | Sandy Blair (Cadeirydd) (o fis Hydref 2013) | Mary Carter | Stuart Castledine | Monojit Chatterji | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | **£** |
| Cyfradd ddyddiol | 243.00 | 185.00 | 243.00 | 185.00 | 185.00 | 185.00 | |
| Ffioedd | 1,701 | 740 | 3,562.14 | 3,256.08 | 4,329.58 | 2,652.50 | **16,241.30** |

## Treuliau Aelodau'r Bwrdd

| | Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid (Cadeirydd) | Sandy Blair (hyd at fis Hydref 2013) | Sandy Blair (Cadeirydd) (o fis Hydref 2013) | Mary Carter | Stuart Castledine | Monojit Chatterji | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Milltiroedd mewn car | - | | 332.55 | 104.30 | 133.70 | 362.80 | **933.35** |
| Tacsi / llogi car | 125.62 | | - | 20.50 | - | 145.37 | **291.49** |
| Teithiau awyr | 310.25 | | - | - | - | 693.69 | **1,003.94** |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 62.47 | | - | 203.50 | 60.80 | 35.65 | **362.42** |
| Adeiladau | 192.00 | | - | 276 | - | 410.00 | **878.00** |
| Cynhaliaeth | 117.40 | 67.50 | - | 38.99 | - | 321.97 | **545.86** |
| Cyfanswm | 807.74 | 67.50 | 332.55 | 643.29 | 194.50 | 1,969.48 | **4,015.06** |

## Costau ychwanegol

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Cyfarfodydd Bwrdd | **345.42** |
| Cyngor actiwaraidd ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad gan PwC | 23,160 |
| Cyngor cyfreithiol ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad gan Wragge & Co | **40,362** |
| Cyfanswm | **63,867.42** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm costau** | **84,123.78** |